**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

# MESUR DIWYGIO'R HEDDLU A CHYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL - PWERAU IS-DDEDDFAU

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. "Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â phwerau ymafael, cadw a fforffedu o dan is-ddeddfau rheoli da a llywodraethu yn Rhan 4 o Fesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

## Y Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi'i gyflwyno gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, sef un o Weinidogion Cymru. Fe'i cyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.4 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 26.2.

3. Mae Rheol Sefydlog 26 yn rhagnodi bod yn rhaid i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno, a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os bydd Mesur Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth ynghylch Cymru sy'n rhan o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

4. Cyflwynwyd Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar 30 Tachwedd 2010. Ceir copi o'r Mesur yn:

http://services.parliament.uk/bills/2010-11/policereformandsocialresponsibility/documents.html

## Crynodeb o'r Mesur a'i Amcanion Polisi

5. Caiff y Mesur ei noddi gan y Swyddfa Gartref. Prif ddiben y Mesur yw gwneud darpariaeth ynghylch gweinyddu a llywodraethu awdurdodau'r heddlu; ynghylch trwyddedu, ac ynghylch gosod ardoll hwyr y nos parthed gwerthu a chyflenwi alcohol; diddymu adrannau 132 i 138 o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 ac atal rhai gweithgareddau yn Parliament Square; galluogi darpariaeth yn is-ddeddfau awdurdodau lleol i gynnwys pwerau atafaelu a fforffedu; rheoli cyffuriau peryglus neu niweidiol; cyfyngu ar y gwarantau arestio a roddir am rai troseddau alldiriogaethol; ac at ddibenion cysylltiedig.

6. Caiff y ddarpariaeth sy'n diwygio adran 235 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ei chynnwys yng nghymal 148 (Darpariaethau Amrywiol Rhan 4).

7. Parthed y mater dan sylw yng nghymal 148 cynhwysir cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn yr Atodlen honno mae Mater 12.2 yn darparu cymhwysedd ar gyfer -

"Provision for and in connection with –
(a) the procedure for the making and coming into force of byelaws, and

(b) the enforcement of byelaws."

Mae Cymal 148 yn ymdrin â gorfodi is-ddeddfau.

**Darpariaethau'r Mesur y ceisir cydsyniad ar ei gyfer**

8. Mae isgymal (1) o gymal 148 yn galluogi awdurdodau lleol i weithredu pwerau atafaelu a chadw o ran unrhyw eiddo mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri is-ddeddf a wneir o dan Adran 235 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n galluogi'r llysoedd, adeg collfarnu am ddiffyg cydymffurfiaeth neu fynd yn groes i unrhyw is-ddeddf, i orchymyn fforffedu unrhyw eiddo o'r fath.

**Mantais defnyddio'r Mesur hwn**

9. Mae hi'n fanteisiol i awdurdodau lleol yng Nghymru allu llunio is-ddeddfau rheolaeth dda a llywodraeth (adran 235 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) sy'n cynnwys pŵer atafaelu a chadw oherwydd bydd hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol atgyfnerthu'r is-ddeddfau hyn a'u cynorthwyo â'u hymdrechion i ddiogelu eu cymunedau. Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Mesur DU hwn gan ei fod yn cynrychioli'r ddeddfwriaeth fwyaf priodol a chymesur er mwyn sicrhau bod y darpariaethau hyn yn berthnasol i Gymru cyn gynted â phosibl.

10. O'r herwydd mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn wedi'i osod, ac mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i gyflwyno, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried.

**Goblygiadau Ariannol**

11. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eithrio unrhyw gostau gweinyddol cysylltiedig a all gael eu bodloni gan gyllideb Costau Rhedeg Dirprwyedig Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

12. Rhagwelir y bydd ychydig o gostau ychwanegol i awdurdodau lleol petaent yn dymuno cynnwys y pŵer hwn. Gallai'r costau hyn ddeillio o ymgynghori ychwanegol sydd ynghlwm â llunio'r is-ddeddf a'i gorfodi.

13. Serch hynny, mae'r pŵer i ymgorffori pwerau atafaelu a chadw yn ddewisol a mater i awdurdodau lleol unigol fydd penderfynu a oes angen iddynt ei ddefnyddio.

**Carl Sargeant AC, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**
**Ionawr 2011**